**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf P-05-911
Ein cyf DET/00170/20

Janet Finch-Saunders AC
Cadeirydd, y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

05 Mawrth 2020

Annwyl Janet Finch-Saunders AC,

**Deiseb P-05-911 Dylid Diogelu Coed Yw Hynafol Cymru**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Chwefror yn gofyn am fanylion gan Cadw am:

1. unrhyw fesurau diogelwch a roddir i goed hynafol, fel yw, yng Nghymru, ac unrhyw gynlluniau y gellid eu defnyddio at y diben hwn; a
2. chyfeiriadau a wneir gan y deisebydd at gamau a gymerir gan English Heritage mewn perthynas â choed yw yn Lloegr.

Byddaf yn mynd i'r afael â'r pwyntiau hyn yn eu trefn.

1. Mae'r Pwyllgor Deisebau eisoes wedi derbyn gwybodaeth am Orchmynion Diogelu Coed a mesurau diogelu posibl eraill a weinyddir gan adrannau eraill yn Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol.

Gwelaf fod y deisebydd yn gofyn yn benodol am y posibilrwydd o ddiogelu drwy gofrestru coed fel henebion. Fel gwasanaeth amgylchedd hanesyddol Llywodraeth Cymru, mae nodi henebion sy'n bodloni'r meini prawf cofrestru yn un o gyfrifoldebau Cadw.

Cofrestru yw'r ffordd o gydnabod henebion neu safleoedd archeolegol o bwysigrwydd cenedlaethol yn ôl y gyfraith drwy Ddeddf Henebion Hynafol ac Ardaloedd Archaeolegol 1979. Defnyddir cofrestru i ddiogelu adfeilion hanesyddol nad oes unrhyw un yn byw

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

ynddynt a safleoedd archeolegol. Mae rhai henebion cofrestredig yn cynnwys adeiladau sy'n sefyll neu adfeilion ac nid oes gan eraill unrhyw adfeilion i'w gweld uwchben y tir, ond mae eu harchaeoleg o dan y tir o bwysigrwydd cenedlaethol. Gall safleoedd dan ddŵr fod yn rhai cofrestredig hefyd, fel aneddiadau llynnoedd tanddwr neu ddrylliadau hanesyddol.

Cymerodd Cadw ran mewn grŵp gorchwyl a gorffen a sefydlwyd i edrych ar ddiogelu coed hynafol. Edrychodd y grŵp ar hyfywdra defnyddio cofrestru i ddiogelu coed hynafol, ond daeth i'r casgliad mewn trafodaethau cynnar nad dyma'r ffordd fwyaf effeithiol ymlaen. Y prif reswm am hyn yw nad yw coed yn cael eu dosbarthu yn hawdd i'r diffiniad o henebion oherwydd eu cynefinoedd ehangach a diddordeb o ran bioamrywiaeth, a gallai cofrestru gyfaddawdu'r gallu i'w rheoli yn effeithiol gan y byddai unrhyw waith rholi coed yn gofyn am gydsyniad henebion cofrestredig. Fodd bynnag, deallaf o'r ymateb i'r Pwyllgor Deisebau gan y Gweinidog Tai a Llywodraeth Leol dyddiedig 18 Rhagfyr 2019, bod opsiynau eraill mwy priodol ar gyfer sicrhau gwell diogelwch yn cael eu hystyried.

2. Mae'r deisebydd yn nodi bod English Heritage wedi cymryd cam pwysig i wneud yr Ywen Ankerwycke yn Runnymede yn heneb gofrestredig. Rydym wedi ymchwilio i hyn ac wedi penderfynu nad yw'r Ywen Ankerwycke yn goeden gofrestredig; mae'n goeden sydd wedi'i lleoli o fewn ffin heneb gofrestredig. Mae'r dynodiad heneb gofrestredig ar gyfer Abaty Ankerwycke (lleiandy Benedictaidd a sefydlwyd yn hwyr yn yr ugeinfed ganrif) – Heneb Gofrestredig Cofnod Rhestr Rhif: 1007943 https://historicengland.org.uk/listing/the-list/list-entry/1007943. Historic England yw'r corff yn Lloegr sy'n gyfrifol am gofrestru ar hyn o bryd, Mae Historic England yn datgan bod amrywiaeth mawr o dros 200 categori o henebion ar ei gofrestr ond yn nodi mai dim ond strwythurau, nodweddion ac adfeilion sydd wedi'u creu yn fwriadol gaiff eu cofrestru.

3. Am y rhesymau a nodwyd yn gynt, nid yw Cadw yn ystyried cofrestru fel mecanwaith priodol ar gyfer diogelu coed hynafol ac, fel Historic Englnad, ni fyddai'n cymhwyso dynodiad i goed yw hynafol penodol.

Yn gywir,

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AC/AM**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth